

**CYFARFOD LLANBEDR MEETING – CAMAU NESAF/ NEXT STEPS**  
**Nodiadau a Phwyntiau Gweithredu / Notes and Actions**  
**29 Medi/September 2023**  
**Ystafell Rhiniog Fawr, Neuadd Llanbedr**

**Mynychwyr / Attendees:**

**Cyngor Gwynedd:** Y Cyng/Cllr Dafydd Meurig, Y Cyng/Cllr Anwen Hughes, Y Cyng/Cllr Gwynfor Owen, Y Cyng/Cllr Dyfrig Siencyn, Dafydd Williams, Dafydd Gibbard, Llinos Angharad Jones, Steffan Jones, Iwan Ap Trefor, John Rhys Jones, Carwyn Meredydd

**Cyngor Cymuned Llanbedr:** Y Cyng/Cllr Eirwyn Thomas, Y Cyng/Cllr John Evans, Y Cyng/Cllr Kevin Titley, Morfudd Lloyd [Clerc/Clerk].

**Grŵp POBL Group:** Lucy Powell, Jane Taylor Williams (hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned Llanbedr/also a member of Llanbedr Community Council), Wynn Hammond

**Trafnidiaeth i Gymru [TfW]:** Lee Robinson, Tracey Kearns

**Llywodraeth Cymru/ Welsh Government:** Gwyn Lewis

**WSP:** Gwyn Davies

**Eraill/Others:** Adam Rooney, Karl Ciz, Julie Harrington, Mair Richards.

**Ymddiheuriadau / Apologies:**

**Cyngor Cymuned Llanbedr:** Y Cyng/Cllr Robin Ward.

**Tirfeddianwyr/Landowners:** Edmund Bailey, Ed Bailey.

**Llywodraeth Cymru/ Welsh Government:** Chris Warner, Matthew Jones.

<b>1. Croeso a chyflwyniadau</b>	<b>1. Welcome and introductions</b>
Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a gadeiriwyd gan Y Cyng Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd.	Everyone was thanked for attending the meeting that was chaired by Councillor Dafydd Meurig, Cyngor Gwynedd's Environment Cabinet Member.
<b>2. Cofnodion blaenorol</b>	<b>2. Previous Minutes</b>
Wedi ystyriaeth a thrafodaeth, derbyniwyd y cofnodion o gyfarfod 26/6/23 fel adlewyrchiad teg o'r drafodaeth.	Given consideration and discussion, the minutes from the meeting on 26/6/23 were accepted as a true reflection of the discussion.
<b>3. Cyflwyno'r Tîm - esbonio rôl swyddogion</b>	<b>3. Introducing the Team – explaining the role of officers</b>
Cadarnhawyd fod y prosiect yn cael ei arwain gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd, ac y bydd Dafydd Williams fel Pennaeth yr Adran yn cymryd rôl arweiniol ar y prosiect.  Nodwyd mai un o'r prif bwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf oedd clustnodi Rheolwr Prosiect penodol a fyddai'n cydlynu'r gwaith ac yn brif pwynt cyswllt gyda'r gymuned, a bod	It was confirmed that the project is being led by Cyngor Gwynedd's Environment Department, and that Dafydd Williams would take on the project's leadership role as the Head of Department.  It was noted that one of the main action points from the last meeting was to assign a designated Project Manager to coordinate the work and be a main

<p>Llinos Angharad Jones o Wasanaeth Traffig a Phrosiectau yr Adran Amgylchedd wedi cychwyn ar y rôl yma.</p> <p>Bydd fîm o swyddogion ynghlwm â'r gwaith hefyd, yn cynnwys Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrosiectau y Cyngor a fydd â throsolwg o'r maes o ogwydd traffig. Yn ogystal, bydd John Rhys Jones o Wasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) y Cyngor yn arwain ar elfennau technegol penodol ynghlwm gyda'r gwaith, gyda chefnogaeth cydweithwyr o YGC.</p> <p>Cadarnhawyd hefyd fod cwmni WSP, arbenigwyr trafndiaeth sydd â phrofiad helaeth yn y maes, yn arwain ar y proses WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu Trafndiaeth Cymru).</p> <p>Eglurwyd hefyd fod Pennaeth Cynorthwyol fydd yn cymryd gorolwg o'r maes Trafndiaeth yn ymuno gyda'r Adran Amgylchedd yn fuan ac y bydd yn aelod o'r fîm maes o law.</p>	<p>contact point for the community, and that Llinos Angharad Jones from the Environment Department's Traffic and Projects Service had taken on this role.</p> <p>A team of officers would also be involved with the work, including Iwan ap Trefor, the Council's Traffic and Projects Manager who would have an overview of the field from a traffic perspective. In addition, John Rhys Jones from the Council's Gwynedd Consultancy Service (YGC) will lead on specific technical elements involved with the work, with the support of YGC colleagues.</p> <p>It was also confirmed that the transport specialist firm, WSP who have extensive experience in the field, will lead on the WelTAG process (Welsh Transport Appraisal Guidance).</p> <p>It was also explained that an Assistant Head who will have overview of the Transport field would be joining the Environment Department soon and will be a member of the team in due course.</p>
--	---

<b>4. Cyflwyniad - Adborth yr Holiadur Enillion Cyflym</b>	<b>4. Presentation – Quick Wins Questionnaire Feedback</b>
<p>Cafwyd cyflwyniad gan Llinos Angharad Jones (copi ynghlwm) yn amlinellu yr adborth i holiadur a gynhaliwyd ar amrediad o 'Enillion Cyflym'. Roedd y rhain wedi eu hawgrymu gan Trafndiaeth Cymru a WSP ar ran Llywodraeth Cymru mewn adroddiad blaenorol.</p> <p>Roedd 283 o ymatebion i'r holiadur, a dderbyniwyd gan gynrychiolwyr lleol (cynghorwyr/ cynghorwyr cymuned ayb), grwpiau lleol (ee POBL), tîffeddiawyr, perchnogion busnes, ymatebwyr eraill a rhaid oedd heb nodi.</p> <p>Roedd yr ymateb yn gyffredinol debyg wrth gymharu gydag adborth y</p>	<p>A presentation from Llinos Angharad Jones (copy attached) outlined the feedback to a questionnaire held on a range of 'Quick Wins'. These had been suggested by Transport for Wales and WSP's report for Welsh Government in a previous report.</p> <p>There were 283 responses to the questionnaire, received from local representatives (councillors/community councillors etc.), local groups (e.g. POBL), landowners, business owners, other responders and those who had not specified.</p> <p>Generally, the response was similar in comparison with the feedback of the stakeholders from the meeting. Whilst</p>

rhanddeiliaid o'r cyfarfod. Tra'n nodi nad bwriad yr holiadur oedd darparu tystiolaeth wyddonol bendant, mae'n darparu cyd-destun pwysig am yr hyn y ffefrir a'r opsiynau nad oedd yr ymatebwyr am ei weld yn cael eu cyflwyno.

O ystyried y prif flaenoriaethau y sefyllfa yn Llanbedr, diogelwch y ffordd, effaith lefel traffig a darpariaeth i gerddwyr oedd y materion pwysig dros ben yn ôl yr ymatebwyr, gydag effaith llygredd aer, mynediad i'r maes awyr a pharcio yn nesaf o ran lefel pwysigrwydd.

Roedd yr ymatebwyr yn nodi fod y lleoliadau'r prif oedi ar y ffordd i Fochras, yr A496 i'r gogledd, ac yna'r A496 i'r de. Amlinellwyd y prif broblemau ynghlwm â materion thrafnidiaeth yn lleol (manylion llawn yn y cyflwyniad).

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ymatebion i bob un o'r enillion cyflym lle holwyd os oedd yr ymatebwyr yn awyddus i gyflwyno newidiadau penodol. O'r enillion cyflym a holwyd yn eu cylch, roedd mwyafrif o'r ymatebwyr am weld uwchraddio a newid isadeiledd safle bws presennol gyda pholion newydd ac amserlen.

Roedd nifer o awgrymiadau pellach wedi eu cynnig hefyd fel rhan o'r ymateb i'r arolwg hefyd a chafwyd cyfle i amlinellu pob un o'r cynigion yma yn ystod y cyflwyniad.

Bydd yr wybodaeth a gasglwyd o'r holiadur yn darparu cyd-destun am brif bryderon a dyheadau y gymuned, cynrychiolwyr a rhanddeiliaid. Bydd yn cynnig sail cychwynnol hynod ddefnyddiol o ran lefel y gefnogaeth i wahanol agweddau, a fydd yn cael ei fwydo i mewn i'r broses WelTAG fanylach fydd yn dilyn.

noting that it was not the questionnaire's intent to provide specific scientific evidence, it provided important context about what was preferred and the options that the respondents did not want to see introduced.

Considering the main priorities of the situation in Llanbedr, road safety, traffic level impact and the provision for walkers were the most important matters according to the respondents, with air pollution impact, access to the airfield and parking being next in terms of importance.

The respondents noted that the location of main delays was on the way to Mochras, the A496 north-bound, and the A496 south-bound. The main problems relating to local transport matters were outlined (full details in the presentation).

Consideration was given to the responses to each of the quick wins where it was questioned whether the respondents were eager to introduce specific changes. From the quick wins that were asked about, most of the respondents wanted to see the upgrade and replacement of the existing bus stop infrastructure with new poles and timetable information.

Several further recommendations had also been proposed as part of the response to the survey and each of these proposals were outlined during the presentation.

The information collected from the questionnaire would provide context for the main concerns and aspirations of the community, representatives, and stakeholders. It will offer an extremely useful initial basis in terms of the level of support needed for different aspects, that will be fed into the more detailed WelTAG process to follow.

<p>Cadarnhawyd y bydd y broses WelTAG yn gofyn am ymgysylltu mwy penodol gyda'r gymuned leol ac y bydd sylwadau a syniadau trigolion, cynrychiolwyr a rhanddeiliaid yn rhan greiddiol o'r broses yna.</p>	<p>It was confirmed that the WelTAG process will require more specific engagement with the local community and that the ideas and observations of residents, representatives and stakeholders will be a core part of that process.</p>
<p><b>PENDERFYNIAD: Cafwyd consensws yn y cyfarfod y dylid bwrw ymlaen gyda gwaith pellach ar y cynlluniau:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• i uwchraddio a newid isadeiledd safle bws presennol gyda pholion newydd ac amserlen,</li> <li>• darparu isadeiledd parcio beic, yn cynnwys stand cynnal a chadw storfa, ar safleoedd allweddol yn Llanbedr,</li> <li>• ac i ystyried gosod camera am gyfnod ar y bont i fonitro traffig.</li> </ul>	<p><b>DECISION: There was consensus in the meeting that further work on the plans should proceed:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• to update and replace the existing bus stop infrastructure with new poles and timetable,</li> <li>• to provide cycle parking and associated infrastructure provision, including maintenance stands and storage, at key locations in Llanbedr,</li> <li>• and to consider installing a camera on the bridge for a period to monitor traffic.</li> </ul>

<p><b>5. Sgôp y gwaith ariennir gan Lywodraeth Cymru</b></p>	<p><b>5. Scope of the work funded by Welsh Government</b></p>
<p>Trafodwyd yr angen am eglurder am sgôp y gwaith fydd ynghlwm â'r proses WelTAG a'r gwaith fydd yn derbyn cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru.</p> <p>Roedd dealltwriaeth rhai yn y cyfarfod fod y gwaith yn cynnwys Coridor Gwyrdd Ardudwy (sy'n ymestyn o Landecwyn i Abermaw), ac yn cynnwys Llanbedr. Roedd dealltwriaeth fod angen cynnal y gwaith ehangach yma er mwyn gallu cyfiawnhau'r angen am ffordd osgoi/ lliniaru ar gyfer Llanbedr.</p> <p>Ond roedd eraill o'r mynychwyr yn deall fod y gwaith wedi ei gyfyngu i Lanbedr yn unig ac mai gwneud pentref Llanbedr yn fwy diogel oedd blaenoriaeth y gwaith.</p> <p>Roedd y mynychwyr yn awyddus i sicrhau eglurder am union sgôp y gwaith.</p>	<p>The need for clarity about the scope of work related to the WelTAG process and the work that will receive the Welsh Government's financial support was discussed.</p> <p>Some in the meeting were of the understanding that the work would include Ardudwy's Green Corridor (that stretches from Landecwyn to Barmouth), and included Llanbedr. There was an understanding that this extended work needed to be undertaken to be able to justify the need for the bypass/relief road for Llanbedr.</p> <p>But other attendees understood that the work was restricted to Llanbedr only and that the priority of the work was to make the village of Llanbedr safer.</p> <p>The attendees were keen to have clarity about the exact scope of the work.</p>

<p><b>PWYNT GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i ail ddrafftio diffiniad clir a diamwys am sgôp y gwaith a ariennir ganddynt, ac i'r eglurder pellach yma gael ei raeadru i'r mynychwyr.</b></p>	<p><b>ACTION POINT: Welsh Government to re-draft a clear and unambiguous definition of the scope of the work that will be funded by them, and for this further clarity to be cascaded to the attendees.</b></p>
---	---

<p><b>6. Cyflwyniad Proses WELTAG</b></p>	<p><b>6. Presentation on the WelTAG Process</b></p>
<p>Cafwyd cyflwyniad gan Gwyn Davies o gwmni WSP (copi ynghlwm) yn amlinellu'r broses sydd ynghlwm â threfniadau arfarnu cynlluniau trafniadaeth WelTAG. Bydd gwaith ymgysylltu gyda'r gymuned yn greiddiol i'r broses, gan gynnwys cadarnhau'r achos dros newid ac amcanion i'r dyfodol yn y lle cyntaf.</p> <p>Cadarnhawyd fod cyllid wedi ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal camau 1 a 2 WelTAG yn y lle cyntaf.</p> <p>Eglurwyd yr holl gamau angenrheidiol wrth gynnal asesiad WelTAG a bod disgwyliad cynnal y gwaith yma cyn y gellir ymgeisio am gyllid gan Lywodraeth Cymru i wireddu unrhyw gynlluniau sylweddol. Nodwyd fod canllawiau WelTAG 2022 yn golygu dilyn camau penodol cyn gallu cyflawni prosiect neu raglen benodol.</p> <p>Fel Cam 1 bydd opsiynau yn cael eu hadnabod a chreu rhestr fer. Yn unol â chanllawiau, bydd ystyriaeth i amrediad o opsiynau, a fydd yn cynnwys: opsiynau cynllunio defnydd tir; opsiynau ar gyfer gwasanaethau mwy cynaliadwy; opsiynau i wneud gwell defnydd o'r seilwaith presennol; opsiynau newid ymddygiad; opsiynau ar gyfer seilwaith newydd, gan ddefnyddio'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy.</p> <p>Tanlinellwyd fod ymgysylltu gyda'r gymuned leol, cynrychiolwyr, grwpiau perthnasol a rhanddeiliaid yn allweddol yn y broses WelTAG a fel rhan o gam 1 bydd rhestr fer o opsiynau yn cael eu dilysu gyda rhanddeiliaid allweddol</p>	<p>Gwyn Davies from WSP gave a presentation (copy attached) outlining the process associated with WelTAG transport plans appraisal arrangements. Community engagement work will be at the core of the process, which will include confirming the case for change and aims for the future in the first place.</p> <p>It was confirmed that funding had been secured from the Welsh Government to undertake WelTAG stage 1 and 2 in the first place.</p> <p>All the required steps when conducting a WelTAG assessment were explained, and that this work was vital before it was possible to apply for funding from the Welsh Government to realise any major plans. It was noted that the 2022 WelTAG guidelines mean following specific steps before being able to deliver a specific project or programme.</p> <p>In Stage 1, options will be identified, and outline a short list. In accordance with guidelines, consideration will be given to a range of options, including: land use planning options; options for more sustainable services; options to make better use of the current infrastructure; change of behaviour options; options for new infrastructure, using the Sustainable Transport Hierarchy.</p> <p>It was underlined that engagement with the local community, representatives, relevant groups and stakeholders was key in the WelTAG process and as a part of stage 1, a shortlist of options will be validated with key stakeholders with</p>

gyda gweithdy yn cael ei gynnal fel rhan o'r gwaith yma. Ar hyn o bryd, a thra'n nodi y gallai'r amserlen addasu, nodir y byddai'r gwaith yma yn debygol o gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2024.

Wedi'r asesu, bydd rhestr fer o opsiynau'n symud ymlaen i Gam 2 proses WelTAG. Bydd dyluniadau'r rhestr fer yn cael eu hasesu, gan gynnwys gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal, a fyddai'n cynnwys arolwg i gasglu barn a sesiynau galw heibio posib yn y gymuned i gael mewnbwn trigolion. Yn dilyn asesu'r gwaith ymgynghori, cynhelir gweithdy pellach gyda rhanddeiliaid allweddol i ystyried yr adborth a chadarnhad yr opsiwn ffafredig. Yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, a chan nodi y gallai'r amserlen newid, nodir y byddai'r gwaith yma yn debygol o gael ei gwblhau yng ngaeaf 2024/5.

Yna, wrth symud i Gam 3 proses WelTAG, byddai gwaith yn digwydd ar gynnal achos busnes llawn, a byddai angen sicrhau cyllid pellach ar gyfer cynnal y gwaith yma.

Tynnwyd sylw at yr adolygiad ffyrdd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a bod disgwyliad i ystyried hierarchaeth trafniadaeth gynaliadwy fel rhan o'r broses WelTAG. Bydd disgwyliad fod unrhyw gynlluniau yn dilyn yn camau yn rhesymegol ac na fyddai neidio i wneud cais am ffordd osgoi/ liniaru newydd yn cael cymeradwyaeth heb fod wedi dilyn y broses a bod y drefn yn cadarnhau mai dyna'r opsiwn gorau i ddatrys y broblem yn Llanbedr.

Holwyd os byddai mewnbwn y maes awyr a rhanddeiliaid sydd ynghlwm â'r lleoliad yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses WelTAG. Nodwyd fod mynediad i'r awyrborth wedi bod yn fater allweddol i'r cynllun ffordd blaenorol,

a workshop being held as a part of the work. At the moment, and whilst noting that the timetable may be subject to change, it was noted that the work was likely to be completed in spring 2024.

After the assessment, the short-list of options will move on to Stage 2 of the WelTAG process. The shortlisted designs will be assessed, which will include a workshop with key stakeholders. A public consultation will be held, which will include a survey to gather opinions and possible drop-in sessions in the community to obtain the residents' input. Following assessment of the consultation work, a further workshop will be held with key stakeholders to consider the feedback and confirmation of the preferred option. Based on the current situation and noting that the timetable may be subject to change, it was noted that this work was likely to be completed in winter 2024/25.

Then, moving on to Stage 3 of WelTAG, work will be undertaken on producing a full business case, and there would be a need to secure further funding to undertake this work.

Attention was drawn to the road review commissioned by the Welsh Government, and expectation to consider a sustainable transport hierarchy as a part of the WelTAG process. It is expected that any plans will follow the steps logically and that leaping to apply for a new bypass/ relief road would not be approved without having followed the process and that the arrangement confirms that it would be the best option to solve the problem in Llanbedr.

It was asked if the input of the airfield and stakeholders associated with the area would be considered as part of the WelTAG process. It was noted that access to the airfield had been a key

<p>ac y byddai ystyriaeth i ddatblygiadau posib ar y safle a'r potensial i ddatblygiad economaidd yn lleol yn rhan o'r gwaith. Bydd rhanddeiliaid sydd ynghlwm â'r safle yn cael eu hannog i fod ynghlwm â'r broses a chyfrannu at y broses WeITAG.</p>	<p>aspect for the previous road plan, and that consideration will be given to possible developments on the site and the potential to local economic development as part of the work. Stakeholders associated with the site will be encouraged to engage with and contribute to the WeITAG process.</p>
<p><b>PENDERFYNIAD: Bydd trefniadau ar gyfer cysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfer y camau cyntaf WeITAG yn cynnwys cynnal gweithdai cychwynol yn cael eu cydlynu gan WSP ar ran Cyngor Gwynedd.</b></p>	<p><b>DECISION: Arrangements for contacting key stakeholders for the first WeITAG steps will include holding initial workshops being coordinated by WSP on behalf of Cyngor Gwynedd.</b></p>

<p><b>7. Hawl cynllunio presennol</b></p>	<p><b>7. Current planning permission</b></p>
<p>Atgoffwyd mynychwyr fod hawl cynllunio eisoes yn ei le ar gyfer ffordd newydd a bod Cyngor Gwynedd wedi cynnal gwaith ymgysylltu sylweddol fel rhan o'r broses o ddatblygu'r gwaith yna yn flaenorol.</p> <p>Mae'r hawl cynllunio yn dod i ben ym mis Mawrth 2025, ac mae yna gyfres o amodau penodol ynghlwm a'r cais. Nodwyd y byddai'n synhwyrol i sicrhau barn arbenigol cynllunio i ganfod os byddai modd defnyddio'r hawl cynllunio presennol at ddibenion cynllun arall i'r dyfodol.</p> <p>Nodwyd y byddai'r gwaith yma yn cael ei gynnal y tu hwnt i sgôp yr ymarferiad WeITAG ac y byddai Cyngor Gwynedd yn cyllido'r gwaith i sicrhau barn arbenigol ar y mater yma.</p>	<p>Attendees were reminded that planning rights were already in place for a new road and that Cyngor Gwynedd had previously held significant engagement work as part of the process of developing that work.</p> <p>The planning rights will come to an end in March 2025, and there are a series of specific conditions associated with the application. It was noted that it would be sensible to secure a specialist planning opinion to see if the current planning right could be used for the purpose of another plan in the future.</p> <p>It was noted that this work would be undertaken beyond the scope of the WeITAG exercise and that Cyngor Gwynedd would be funding the work to secure a specialist opinion on the matter.</p>
<p><b>PENDERFYNIAD: Cyngor Gwynedd i adrodd yn ôl i'r cyfarfod ar y farn arbenigol ar yr hawl cynllunio.</b></p>	<p><b>DECISION: Cyngor Gwynedd to report back to the meeting on the specialist opinion on the planning right.</b></p>

<p><b>8. Cyfathrebu</b></p>	<p><b>8. Communication</b></p>
<p>Cadarnhawyd fod cyfathrebu effeithiol yn hollbwysig er mwyn sicrhau fod y rhanddeiliaid yn ymwybodol o ddatblygiadau ac i sicrhau fod unrhyw ymholiadau neu gwestiynau yn cael eu cyfeirio i'r man priodol ar gyfer ymatebion.</p>	<p>It was confirmed that effective communication would be key to ensure that the stakeholders were aware of developments and to ensure that any questions were referred to the appropriate place for responses.</p>

<p>Bwriedir darparu diweddariad fydd y cael ei rannu o leiaf unwaith bob dau fis, ac yn amlach pan fydd unrhyw beth amserol i'w rannu.</p> <p>Bydd ymgysylltu yn rhan greiddiol o bob cam o'r broses WelTAG, a bydd rhanddeiliaid allweddol yn cael eu gwahodd i weithdai i gyfrannu ac ystyried opsiynau.</p> <p>Nodwyd fod sicrhau cyswllt gyda swyddogion sydd ynghlwm â'r gwaith yn bwysig a bod gwrando a deall dyheadau a phryderon y gymuned leol yn allweddol i lwyddiant unrhyw brosiect. Mae awydd i swyddogion perthnasol i ymweld a cherdded y safleoedd allweddol yn y pentref er mwyn gweld y materion lleol perthnasol.</p> <p>Esboniwyd y byddai ymweliad safle yn rhan o gam 1 proses WelTAG, ac y byddai swyddogion o'r tîm prosiect yn barod i gynnal cyfarfodydd ac ymweld y gymuned i drafod materion gyda chynrychiolwyr a thrigolion.</p>	<p>It was intended to provide an update to be shared at least once every two months, and more often when there would be anything needing to be shared in a timely manner.</p> <p>Engagement was a core part of every stage of the WelTAG process, and that key stakeholders would be invited to workshops to contribute and consider options.</p> <p>It was noted that ensuring contact with officers associated with the work was important and that listening to and understanding the local community's aspirations and concerns was essential to the success of any project. There is an eagerness for relevant officers to visit and walk along the key sites in the village to see the relevant local matters.</p> <p>It was explained that a site visit would form part of the WelTAG process's first step, and that officers from the project team would be ready to hold meetings and visit the community to discuss matters with representatives and residents.</p>
<p><b>PWYNTIAU GWEITHREDU:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cyngor Gwynedd i ddarparu diweddariad ysgrifenedig o leiaf bob dau fis.</b></li> <li>• <b>Rheolwr prosiect ac aelodau perthnasol y tîm prosiect i drefnu ymweld a cherdded y pentref gyda rhanddeiliaid a mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd yn Llanbedr.</b></li> <li>• <b>Cyngor Gwynedd a WSP i lunio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu.</b></li> </ul>	<p><b>ACTION POINTS:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cyngor Gwynedd to provide a written update every two months at least.</b></li> <li>• <b>Project managers and relevant members of the project team to organise a visit and walk of the village with stakeholders and attend face to face meetings in Llanbedr regularly.</b></li> <li>• <b>Cyngor Gwynedd and WSP to draw up a communication and engagement plan.</b></li> </ul>

<p><b>9. Datganiad yn dilyn y cyfarfod</b></p>	<p><b>9. Statement following the meeting</b></p>
<p>Cytunwyd y dylid paratoi datganiad cryno i grynhoi'r sefyllfa yn dilyn y cyfarfod:</p> <p>"Cynhaliwyd cyfarfod cynhyrchiol rhwng nifer o randdeiliaid allweddol</p>	<p>It was agreed that a concise statement should be prepared to summarise the situation following the meeting:</p> <p>"A productive meeting was held of a number of key stakeholders who are</p>

ynghlwm â cheisio datrysiaid i broblemau traffig cymuned Llanbedr.

"Cytunodd y mynychwyr y dylid symud ymlaen i gynnal gwaith pellach ar y cynlluniau enillion cyflym i uwchraddio a newid isadeiledd safle bws presennol gyda pholion newydd a amserlen ar gyfer y safle bws; a darparu isadeiledd parcio beic, yn cynnwys stand cynnal a chadw storfa, ar safleoedd allweddol yn Llanbedr. Cytunwyd hefyd y dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o osod camera am gyfnod ar y bont i fonitro traffig.

"Cyflwynwyd y broses arfarnu cynlluniau trafnidiaeth WelTAG, gan amlinellu'r camau a'r asesu angenrheidiol y bydd angen eu dilyn er mwyn profi'r angen a phenderfynu ar opsiwn ffafredig i oresgyn problemau trafnidiaeth Llanbedr.

"Bydd cyfathrebu ac ymgysylltu gyda'r gymuned leol, cynrychiolwyr, grwpiau a rhanddeiliaid allweddol yn rhan greiddiol o'r broses yma, a bydd gweithdai penodol yn cael eu cynnal yn ystod y broses i drafod ac ystyried addasrwydd opsiynau.

"Yna, ar ôl dilyn y camau WelTAG cychwynnol, byddai angen gwneud cais am gyllid i Lywodraeth Cymru i ystyried ariannu unrhyw gynlluniau sylweddol megis ffordd osgoi neu ffordd liniaru."

associated with seeking a solution to Llanbedr community's traffic problems.

"The attendees agreed on undertaking further work on the quick wins plans to upgrade and replace the existing bus stop infrastructure with new poles and timetable information; and to provide a cycle parking and associated infrastructure, including maintenance stands and storage, at key locations in Llanbedr. It was also agreed to investigate the possibility of installing a camera for a period on the bridge to monitor traffic.

"The WelTAG transport plans appraisal process was presented, outlining the necessary steps and assessment that need to be followed in order to prove the need and decide on a preferred option to overcome Llanbedr's traffic problems.

"Communication and engagement with the local community, representatives, groups and key stakeholders will be a core part of this process, and specific workshops will be held during the process to discuss and consider the suitability of options.

"Then, after following the initial WelTAG steps, there would be a need to apply for funding from the Welsh Government to consider funding any significant plans such as a bypass or relief road."